CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 11 Mehefin 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Bethan Holding | Iwan Harding | |
| Helen Sharp | Rhys ap Gwilym | |
| Emlyn Baylis | Louise Price | |
| Iola Owen | Trystan Thomas | |
| Kim Jones | | |
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Aled Hughes. Adroddiad materion sirol wedi ei anfon gan y Cynghorydd Sir o flaen llaw. | **CLERC** |
| **1.1** | Cafwyd cyfranogiad gan aelod o'r cyhoedd. Codwyd y materion yn eitemau | |
| **1.2** | Toiledau - mae'n debyg bod diffyg yn parhau oherwydd nid ydynt ar agor mewn amser yn y boreau a'u bod yn cael eu cau yn rhy fuan yn yr hwyr. Trafodwyd y mater. Cyflwynwyd gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r aelodau yn helpu gydag agor y toiledau dros yr Haf. Penderfynwyd os oes modd i adael hwy yn agored trwy'r dydd dros yr haf, y Clerc i wneud ymholiadau. Mae baw dynol yn broblem oherwydd bod y toiledau ar gau, gofynnwyd am y posibilrwydd o osod "paratoawl" ger y safle parcio bysiau. Trafodwyd y mater yma ac nid oedd gosod portaloos yn un ymarferol ynghyd a phwy fydda gyda chyfrifoldeb amdanynt. Roedd sicrhau bod toiledau ger y llyn ar agor drwy gydol y dydd yn well syniad. Mae problem yn y Glyn gyda'r ardal gwastraff ar gyfer y faniau, mae gweld bod y faniau yn gollwng papurau ac yn y blaen iddo. Hefyd nid yw'r gwasanaeth golchi yn gweithio, nid yw wedi gweithio ers peth amser. Y Clerc i gysylltu â Pharc Padarn. | **CLERC** |
| **1.3** | Arwyddion "No Entry" Stryd y Farchnad, mae gyrwyr yn anwybyddu'r rhain neu yn eu methu. Cais yw gwneud i'r uned Draffig Cyngor Gwynedd ar gyfer: i. Tynnu nhw i lawr ychydig ii. Troi'r arwyddion er mwyn iddynt gael i weld o'r ddau gyfeiriad iii. Gosod cefndir melyn arnynt. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. | **Clerc** |
| **1.4** | Defaid - cais am giât i'w gosod ar Coed y Ddol sydd yn galluogi defnydd gan bobl sydd yn defnyddio cadair olwyn. Angen gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyflwyno giât yn y wal ffin Coed y Ddol a thir First Hydro. Y Clerc i anfon at First Hydro a Pharc Padarn. Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â'r broblem DEFAID i. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y defaid sydd yn crwydro yn y pentref yn broblem ac yn cydymdeimlo a thrigolion sydd yn cael eu heffeithio ganddynt oherwydd sŵn a'u bod yn dinistrio eu gerddi. Ii. Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd (priffyrdd) ynglŷn â'r broblem. Mae trefniant mewn lle gan y swyddogion i archwilio sut maent yn cael mynediad i'r pentref ac i drio cau'r bylchau mewn waliau, ffensys ac yn y blaen. iii. Mae gan y Cyngor Cymuned drefniant gyda bugail lleol | **CLERC** |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | i gasglu'r defaid a'u hanfon yn ôl at y perchnogion. iv. Os yw'r defaid ar y brifffordd gofynnir i drigolion rhoi gwybod i'r heddlu am hyn. Mae adrodd y broblem yn helpu yn yr achos drwy gael cofnod o bob digwyddiad. v. Mae cynllun i godi arwyddion rhybudd ar y ffordd osgoi er mwyn rhybuddio defnyddwyr y ffordd bod defaid yn gallu bod yn y brifffordd er mwyn diogelwch ffordd. | |
| **1.5** | Cerflun coffa - bydd adroddiad ar y mater hwn isod. | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant mis Ebrill a mis Mai ynghyd ac adroddiadau ariannol ar gyfer y ddau fis. Derbyniwyd | |
| **3.2** | Derbyniwyd cais am arian gan Y Festri ar gyfer eu galluogi i brynu offer newydd ar gyfer jyglo a hefyd dilladau newydd. Bydd y festri yn agor y digwyddiad Olympics Jyglo yn yr haf. Penderfynwyd cyflwyno £400 iddynt o dan hawl adran 137 wedi pleidlais. | |
| **3.3** | Arian HBO - Ar hyn o bryd mae £19204.96 o arian HBO wedi ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau o fewn y pentref. Mae £17795.04 yn weddill. | |
| **3.4** | CCTV - yn sgil ymweliad Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â throseddu yn y pentref a sut byddai gosod sustem camerâu o fewn y pentref yn help penderfynwyd bod angen sustem yn y pentref a bod dod o hyd i'r ffordd orau i'w ariannu. Mae £30 mil wedi ei glustnodi eisoes ar gyfer prynu tir ar gyfer mynwent newydd ac oherwydd bod trafferth dod o hyd i dir penderfynwyd byddai'r arian yma yn cael ei glustnodi bellach ar gyfer sustem camerâu. Ni fydd hyn yn ddigonol oherwydd yr amcan bris i'r sustem fydd £50 mil felly penderfynwyd byddai'r arian syn yn weddill o'r arian HBO yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sustem yma. Gobeithir dod o hyd i grantiau hefyd. Mae arian HBO wedi bod yn fuddiol iawn ac oherwydd bod ffilmio yn mynd yn ei flaen yn yr ardal eto ar hyn o bryd, penderfynwyd gwneud cais iddynt am arian ar gyfer y budd y Gymuned. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Mai 2025 | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Y bin wedi cyrraedd a bydd yn cael ei osod yn fuan - dim gwybodaeth bellach | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - fe ystyriwyd y mater yma ynghyd a mesuriadau eraill o fewn y pentref yn sgil arian LLECHI mewn cyfarfod a swyddogion Gwynedd yn ddiweddar. Mae cael lleoliad ar gyfer y cerflun wedi bod yn anhawster, ar hyn o bryd yr unig leoliad yw ar Lan y Llyn, er hynny mae trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng y Cyngor Cymuned a'r Feddygfa er mwyn edrych os yw'n bosib ei godi o fewn yr ardd Cymunedol ger y gyffordd a'r ffordd osgoi. Trafodaethau yn parhau, cyfarfod arall wedi ei drefnu. Mae arwyddion newydd i'r pentref, mae'r cynllun arwyddo wedi bod yn derbyn sylw gan y Cynghorydd Helen Sharp a'r Cynghorydd Iola Owen i sicrhau bod y wybodaeth sydd arnynt yn gywir. Bydd y Cynghorydd Gwilym Evans | **CLERC** |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | yn cyfarfod Swyddogion Gwynedd ynglŷn â'r arwyddion a'r ddiwedd yr wythnos. Mae gwaith o wella'r palmentydd yn symud yn ei flaen. | |
| **4.4** | Storfa'r Cyngor - dim ymateb wedi bod hyd yma oddi wrth gynrychiolwyr Sant Ioan y Clerc i gysylltu unwaith eto | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - disgwylir derbyn yr arian yn fuan er mwyn rhoi'r prosiect ar waith. Angen trefnu ymweliad safle rhwng Parc Padarn, y Cyngor a'r contractwr. | **CLERC** |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Mae llwybr 17 am dderbyn gwaith cynnal a chadw ar y gamfa gan Gyngor Gwynedd. Nid ydym yn gwybod pwy sydd biau'r tir. Mae angen torri'r gwrychoedd ar y llwybr hwn. Y Clerc i drefnu bod y llwybr hwn yn derbyn gwaith barbio. Penderfynwyd cael gwybod gan y person sydd yn cerdded y llwybrau ar ran y Cyngor pa lwybrau sydd angen eu torri. | **CLERC** |
| **5.2** | Cyflwynwyd ymateb Gyngor Gwynedd i Lwybr Pont Meibion ynglŷn â'r giât ac yn sgil hyn fel cafwyd fwy o wybodaeth am y giatiau. Yr un sydd angen sylw yw'r un sydd yn mynd at y Maes Parcio. Y Clerc i anfon y wybodaeth yma ymlaen. | |
| **5.3** | Croesi'r ffordd yn Nant Peris - derbyniwyd adroddiad lafar bod croesi yn y pentref yn beryg. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd gwneud cais i Gyngor Gwynedd am groesfan. Y Clerc i anfon i Gyngor Gwynedd. Hefyd mae cyflymdra o fewn y pentref yn uchel gyda data diweddar yn dangos hynny. Phenderfynwyd y byddai'r Cyngor yn buddsoddi mewn cael arwyddion yn dangos cyflymdra'r traffig. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i ddatgan hyn. | |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| | Dim adroddiad | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **7.1** | Rhif Cais: C25/0380/15/DA Lleoliad: Storfa Glyn Rhonwy Stâd Glyn Rhonwy, Llanberis, Gwynedd, LL55 4EL Bwriad: Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd gan ganiatâd cynllunio C23/0995/15/LL ar gyfer codi adeilad i ddarparu swyddfa a lle cantîn (Dosbarth B1) i ganiatáu gosod drws "louvre" ychwanegol ar y llawr gwaelod isaf i'r drychiad dwyreiniol. DIM GWRTHWYNEBIAD | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Dyddiad y Ffair Nadolig eleni bydd 27ain o Dachwedd 2025. Gwaith archwilio goleuadau Nadolig i gael ei wneud yn ystod yr haf. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim adroddiadau. | |
| | | |
| **10.0** | Materion eraill - caniatawyd gan y Cadeirydd i. Llythyr i longyfarch Band Ysgol Brynrefail ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr urdd. | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |